


CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL A GYNHALIWDYD AM 7y.h. MAI 11 2021 DRWY GYFRWNG ZOOM

Presennol :- Cynghorwyr :- Gwilym Jones (Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Llywelyn Rhys, Ian Jones, Bethan Rees Jones, Richard Williams, Aled Griffith, Simon Brooks, Alwyn Gruffydd, Carol Hayes, Marian Roberts (Clerc)

1.5.21 Ymddiheuriadau :- Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Stuart Nashir-Hallard, Cyng Jason Humphreys

2.5.21 Adroddiad y Cadeirydd

Croesawyd pawb i'r cyfarfod olaf dan Gadeiryddiaeth Cyng Gwilym Jones. Roedd yn diolch i bawb am y fraint o gael gwasanaethu fel Cadeirydd y Cyngor Tref ac yn ddiolchgar am gefnogaeth brwd y Cynghorwyr yn ystod y dair blynedd diwethaf. Roedd y ddwy flynedd gyntaf yn rhai eithaf normal ond wedyn wrth gwrs daeth Cofid i'n herio. Bu gwaith cyffredinol y Cyngor yn parhau er na chafwyd cyfarfodydd am hanner blwyddyn. Dyna pryd y daeth gwerth ein ffrindiau yn Un Llais Cymru i'r amlwg. Yn ystod mis Awst y llynedd, cafwyd y newyddion dinistriol bod salwch Glenda wedi dychwelyd a bod yn rhaid iddi roi rhybudd fod yn rhaid iddi roi'r gorau i'w gwaith. Nid oedd y newydd yma yn ddim o'i gymharu â'r newyddion am ei marwolaeth sydyn ar 6ed Chwefror 2021. Ond roedd yn golygu fod y Cyngor Tref, am gwpl o fisoedd, heb glerc i bob pwrpas. Yna sylweddolodd faint o bethau sy'n dod i'r clercc ar y gliniadur lle mae'n rhaid penderfynu beth sy'n berthnasol a beth sydd ddim. Yn ffodus, daeth Marian atom ac mae hi wedi gallu codi'r awenau yn gyflym iawn. Mae'r Cyngor Tref wedi llwyddo i gynnal cyfarfodydd ar Zoom ac mae hynny wedi bod yn grymedd dysgu serth i rai o'r Cynghorwyr. Felly, rydym ni lle rydym ni ac roedd yn siŵr y byddai'r Cadeirydd newydd yn gweld Porthmadog yn ffynnu ac yn symud ymlaen rwan bod pob dim yn agor eto.

Diolch yn fawr.

Roedd Cyng Richard Williams yn dymuno diolch yn fawr iawn i'r Cadeirydd ar ran y Cyngor am roi blwyddyn ychwanegol o wasanaeth ac am arwain y Cyngor Tref mor dda yn ystod cyfnod anodd iawn.

3.5.21 Ethol Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2021/2022

Etholwyd Cyng Llywelyn Rhys yn Gadeirydd am y flwyddyn 2021/2022 yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Simon Brooks yn eilio.

Cymerodd Cyng Llywelyn Rhys y Gadair a diolchodd i'r Cyng Gwilym Jones am ei wasanaeth arbennig ac am wasanaethu am flwyddyn ychwanegol yn ystod cyfnod anodd iawn. Diolchodd i'r Clerc am ei gwaith ac i'r Cyngorydd Simon Brooks am ei gefnogaeth. Diolchodd yn arbennig i Glenda Burke am ei fentora yn ystod ei dair blynedd fel Cyngorydd Tref. Bydd coffa amdani am flynyddoedd maith i ddod.

4.5.21 Ethol Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2021/2022

Enwebwyd Cyng Jason Humphreys gan Cyng Simon Brooks, Cyng Ian Jones yn eilio. Enwebwyd Cyng Selwyn Griffiths gan Cyng Gwilym Jones, Cyng Carol Hayes yn eilio.

Aethpwyd i bleidlais ac etholwyd y Cyng Selwyn Griffiths yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2021/2022 o 5 pleidlais i 4.

5.5.21 Ethol aelodau o'r Pwyllgorau canlynol am y flwyddyn 2021/2022

Pwyllgor Cyllid / Pwyllgor Datblygu ac Eiddo : Aelodaeth 2020/2021

Cadeirydd y Cyngor	-	Cynghorydd Gwilym Jones
Is-Gadeirydd y Cyngor	-	Cynghorydd Llywelyn Rhys
Ward Ddwyreiniol	-	Cynghorydd Jason Humphreys
Ward Orllewinol	-	Cynghorydd Ian Jones
Ward Ynys Galch	-	Cynghorydd Nia Jeffreys
Ward Tremadog	-	Cynghorydd Aled Griffith
Ward Gest	-	Cynghorydd Simon Brooks
Ward Morfa Bychan	-	Cynghorydd Selwyn Griffiths

Penderfynwyd :- Cadw i'r un aelodau ond fod newidiadau fel a ganlyn:-

Pwyllgor Cyllid / Pwyllgor Datblygu ac Eiddo : Aelodaeth 2021/2022

Cadeirydd y Cyngor	-	Cynghorydd Llywelyn Rhys
Is-Gadeirydd y Cyngor	-	Cynghorydd Selwyn Griffiths
Ward Ddwyreiniol	-	Cynghorydd Jason Humphreys
Ward Orllewinol	-	Cynghorydd Ian Jones
Ward Ynys Galch	-	Cynghorydd Nia Jeffreys
Ward Tremadog	-	Cynghorydd Aled Griffith
Ward Gest	-	Cynghorydd Simon Brooks
Ward Morfa Bychan	-	Cynghorydd Gwilym Jones

Pwyllgor Staffio : Aelodaeth 2021/2022

Penderfynwyd fel a ganlyn :-

Cadeirydd y Cyngor – Cyng. Llywelyn Rhys
Is-gadeirydd y Cyngor – Cyng. Selwyn Griffiths
Cyng. Melfyn Edwards, Cyng. Jason Humphreys ,Cyng. Richard Williams.

6.5.21 Ethol cynrychiolwyr ar bwyllgorau allanol am 2021/ 2022:

Penderfynwyd fel a ganlyn :-

Is Bwyllgor Harbwr Porthmadog	-	Cyng. Llywelyn Rhys
Ymddiriedolaeth Rebecca	-	Cyng. Gwilym Jones
Y Ganolfan	-	
Amgueddfa Forwrol Porthmadog	-	Cyng. Bethan Rees Jones
Clwb Chwaraeon Madog	-	Cyng. Bethan O. Rees Jones
Y Ganolfan Gyngori	-	Cyng. Carol Hayes
Pwyllgor Ymgyrch Ysbyty	-	Cyng. Alwyn Gruffydd
Grŵp Mynediad Dwyfor	-	Cyng. Carol Hayes
Caru Port	-	Cynghorwyr Ian Jones a Richard Williams
Pwyllgor Efeillio	-	Cyng. Bethan O. Rees Jones
Pwyllgor Ardal Dwyfor (Un Llais Cymru)-		Cyng. Alwyn Gruffydd
	-	Cyng. Carol Hayes

Diolchodd y Cadeirydd i bawb oedd yn barod i aros yn eu swyddi.

Penderfynwyd :-

- Gohirio dewis cynrychiolwyr Y Ganolfan tan y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin.
- Y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda'r mudiadau/cymdeithasau uchod i'w hysbysu pwy yw'r cynrychiolwyr newydd ar eu pwyllgorau.

7.5.21 Dogfennau Rheolaeth (*copïau o'r rhai presennol ynghlwm*)

Angen ystyried a derbyn y dogfennau isod yn flynyddol.

- Rheolau Sefydlog
- Rheolau Ariannol
- Côd Ymddygiad
- Archwiliad Mewnol y Cyngor
- Aseidiadau Risg
- Cofrestr Asedau
- Polisi Cynllunio
- Polisi di-bapur
- Polisi Iaith
- Polisi Datganiadau i'r Wasg

Penderfynwyd :- derbyn y dogfennau i gyd yn ôl cynnig Cyng. Selwyn Griffiths, Cyng. Carol Hayes yn eilio.

8.5.21 Arwyddo datganiad i drosglwyddo Lwfans y Cadeirydd am 2021/2022

Bydd y Clerc yn trefnu maes o law fod y llythyr priodol yn cael ei lofnodi er mwyn medru trosglwyddo £1,200 i Gronfa'r Cadeirydd ar gyfer 2021-2022.

MARIAN ROBERTS
MAI 16 2021